

# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 5ed o Fedi 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Yn bresennol** y Cyngorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Tegid Jones, Delyth Parry, Dylan Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Miriam Williams, Darren Morley a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** - Cyngorwyr Anwen Jones, Aled Davies, Gareth O.Davies,
2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 11eg o Orffennaf 2024.**
3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Gorffennaf ac Awst 2024**
4. **Datgan buddiant personol - neb**
5. **Cynghorydd Margaret Griffith yn ymddiswyddo 01.09.2024**  
Derbyniwyd ebost ganddi, yn diolch i holl aelodau'r Cyngor y rhai presennol a thros y blynyddoedd am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y 36 mlynedd diwethaf. Gofynwyd i'r Clerc anfon cerdyn diolch a chael blodau iddi.
6. **Cynhadledd Arfer Arloesol 2024, Un Llais Cymru** - dydd Mercher 16.10.2024 yn Llanelwedd - neb yn gallu mynychu'r gynhadledd.

## **Materion gan Cyngor Gwynedd**

### **7. Ymgynghoriad system bleidlais sengl drosglwyddiadwy Cyngor Gwynedd**

Rhoddwyd hawl drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i unrhyw brif Gyngor yng Nghymru adolygu y drefn ar gyfer ethol ei cyngorwyr. Yn ôl Adran 5 rhoddwyd y dewis i'r Cyngor barhau gyda system gyfredol o gyntaf heibio i'r postyn neu symud i System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Mewn cyfarfod ar 07.12.2023 penderfynodd Cyngor Gwynedd:

**“Bod y Cyngor yn cychwyn proses all arwain at fabwysiadu System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.”**

Cyn y gall y Cyngor roi barn ar newid y system bleidleisio mae'n ofynnol ei bod yn ymgynghori â dwy garfan benodol, etholwyr lleol a chynghorau tref a chymuned.

Roedd y ddogfen ymgynghori wedi cael ei anfon at bawb o flaen y cyfarfod, ac roedd y ffurflen ymateb ar gael ar y linc sydd arno. Bydd yr ymgynghoriad yn agor ar y 15fed o Orffennaf 2024 ac **yn cau am 17:00 ar y 15fed o Fedi 2024.**

Gofynwyd i'r Clerc anfon yr ymateb isod 'r ymgynghoriad yn dilyn trafodaeth.

- Nad oedd neb yn gwybod beth oedd y ffiniau newydd eto.

- Diffyg atebolrwydd.
- Os bydd 8 cynghorydd yn cael ei dewis dros Ddwyfor, at bwy yr ydym yn mynd i holi am gymorth a chynghor?
- Ni fydd neb yn cynrychioli Ward benodol fel ag sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
- Ni fydd rhaid i Gynghorydd fyw yn y Ward.
- Mae'n debyg na fydd Ward yn Llanystumdwy fel sydd yn bodoli rwan, felly ni fydd gennym neb penodol i droi ato wedyn, a fydd hefo dealltwriaeth am anghenion yr ardal.
- O ran effaith ieithyddol, dros yr hir dymor mae'n berygl colli tir ymhen amser.
- Mae hyn yn debycach i wleidyddiaeth cenedlaethol, a dim gwleidyddiaeth lleol.
- Mae ardal Llanystumdwy yn fawr yn barod felly mae'n boendod meddwl bydd yr ardal wedyn yn mynd yn fwy.

8. **Ceisiadau cynllunio a ddaeth yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024** – derbyniwyd sylwadau drwy ebost gan y cynghorwyr ar y tri cais isod:-

- Cais rhif C24/0611/41/LL - Fferm Bron Eifion, Llanystumdwy** - Codi adeilad amaethyddol dros fuarth fferm presennol a pwll biswail presennol.  
**Dim gwrthwynebiad.**
- Cais rhif C24/0636/41/DT - Ty'n Morfa, Llanystumdwy** - Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy a gweithdy newydd gyda ystafell uwchben yn y to fel swyddfa.  
**Dim gwrthwynebiad ond gobeithiwn y bydd amodau cynllunio'n atal y modurdy rhag cael ei ei ddefnyddio fel llety gwyliau/annedd.**
- Cais rhif C24/0582/41/DT - Gwylfa, Chwilog** - gosod pwmp gwres.  
**Dim gwrthwynebiad.**

9. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**

- Cais rhif C24/0665/41/LL - Cadair Elwa, Llanygybi** - tŷ gweithiwr amaethyddol. **Cefnogi.**
- Cais rhif C24/0596/41/TC - Capel Moriah, Llanystumdwy** - Tystysgrif datblygiad cyfreithlon (defnydd arfaethedig) i sefydlu y gall meddianaeth cyntaf yr annedd a gymeradwywyd o dan ganiatâd Cynllunio C21/0420/41/LL fod yn ddefnydd ail gartref.  
**Gwrthod ar sail gormod o dai gwyliau yn y pentref.**

10. **Sedd wag yn Ward Llanystumdwy.** Derbyniwyd gwybodaeth fod Mr Dewi Thomas, Fferm Rhosgyll Fawr wedi cytuno i fod yn Gynghorydd.

11. **Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd**

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod am safleoedd posib a allai fod yn addas i'w datblygu a'u gwarchod o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Estynnir gwahoddiad i'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, datblygwyr a thirfeddianwyr gyflwyno safleoedd posib i'w cynnwys yn y Cynllun.

Bydd y gofrestr ar gyfer cyflwyno safleoedd posib wedi cael ei agor ar 10.07.2024 am gyfnod o 12 wythnos. **Bydd y gofrestr yn cau ar 02.10.2024.**

Mae'n bosib cyflwyno tir ar gyfer ystyriaeth i'w gynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer nifer o ddefnyddiau (e.e. tai, cyflogaeth, manwerthu) neu mae posib cynnig tiroedd ar gyfer ystyriaeth i'w warchod rhag ei ddatblygu.

**Sut i gyflwyno ' Safle Posib' - y ffordd orau i gynnig safle yw llenwi'r ffurflen cynnig Safle Posib ar-lein. Mae'r ffurflen yn galluogi cynnigwyr safleoedd i gynhyrchu a chyflwyno map, cael gwybodaeth am gyfyngiadau, gweld y canllaw ar gyfer cyflwyno safle ac uwch lwytho dogfennau perthnasol.**

**Trafodwyd y mater, a gofynwyd i bawb feddwl am safleoedd. Nodwyd hefyd fod prinder adeiladu tai yn Llangybi a Phencaenewydd a oed yn golygu fod nifer y plant yn Ysgol Llangybi wedi gostwng yn sylweddol.**

### **Materion yn y gymuned.**

#### **12. Llanystumdwy**

##### **a) Cais i gael bin yn 'lay-by' Mynwent Llananytumdwy**

Derbyniwyd cais yn gan Bwyllgor y Fynwent yn gofyn i'r Cyngor Cymuned wneud ymholiad i gael bin Cyngor o flaen y Fynwent, un sefydlog trwm fel sydd yma ac acw yng nghanol trefi.

Mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio bin y Fynwent ar y funud ac yn rhoi pob math o sbwriel yn y bin brown sydd yno ac yn creu trafferth. **Clerc am wneud cais i Cyngor Gwynedd.**

##### **b) Llwybr Clawdd Llanw o Bont Fechan am Ty'n Morfa, Llanystumdwy**

Llawer o ganclwm yn ymyl yr afon, ac mae Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru (sydd berchen y tir o dan sylw) i'w gwneud yn ymwybodol fod angen iddynt drin y planhigyn ymledol yma.

Hefyd derbyniwyd ebost gan drethdalwr yn bryderus am y gwaith barbio mewn rhannau o'r llwybr yma, sef "torriant o dan dyfiant cyfagos i'r llwybr a'r tyfiant hwnnw wedyn yn disgyn ar draws y llwybr a'i wneud yn amhosib neu fan leiaf yn beryglus i'w gerdded, drain a thyfiant ar uchder wynebaw pobol heb eu torri o gwbl". **Derbyniwd gwybodaeth wedyn fod y llwybr wedi cael ei dorri'n foddhaol erbyn hyn.**

#### **13. Rhoslan/Ynys**

#### **14. Chwilog**

#### **15. Pencaenewydd/Sardis**

#### **16. Llangybi**

a) **Cae chwarae Llangybi - peintio offer. Y gwaith peintio wedi cael ei wneud rwan gan Mr Gareth Jones, sef y cylchdro, a'r ddwy ffram siglen.**

b) **Llawr newydd o dan yr offer** - y Clerc yn disgwyl 2 bris gan ddau gwmni arall.

#### **17. Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.08.2024, a rhagolwg tan 31.03.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

18. **Treth ar Werth** – wedi hawlio £306.36 yn nol am y flwyddyn 01.04.23 – 31.03.24 ar 29.08.24.

19. **Praesept** – derbyniwyd yr ail hanner, sef £10,000.00 fis Awst gan Cyngor Gwynedd.

20. **Archwilio mewnol - Cyngor Gwynedd** – y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo’r banc ar sut i ddilyn y drefn newydd, ar gyfer Cyngorydd Aled Evans a Sian Parry. Gellir wedyn gychwyn y drefn o awdurdodi pob taliad ar-lein BACS sydd angen ei wneud yn dilyn y cyfarfod, yn dilyn argymhelliad yr Adran Archwilio.

Eglurodd yr archwilydd, hefo’r taliadau ar-lein, mae’n bosib cael ail berson i awdurdodi taliad ar-lein efo HSBC erbyn hyn fel bod taliad methu gadael y cyfrif hyd nes i ail berson awdurdodi (fel ail lofnod ar siec). Dywedodd bod nifer o gynghorau efo trefniadau mewn lle ar gyfer cymeradwyo taliadau fel hyn cyn iddynt gael eu prosesu ond mae risg yn parhau gan nid oes rheolaethau dros atal unigolyn rhag prosesu taliad heb gymeradwyaeth aelod arall.

Mae’r Clerc wedi cysylltu hefo Un Llais Cymru ynglŷn a hyn, a dywedodd fod drafft Polisi Rheoliadau Ariannol newydd ar y ffordd ganddynt, a bydd angen ychwanegu hyn at y polisi newydd.

21. **Archwilio allannol** – y Clerc wedi anfon y dogfennau i gael ei archwilio drwy ebost at Archwilio Cymru ac wedi rhoi rhybudd hysbysiad archwilio ar wefan y Cyngor, a’r hysbysfyrddau yn pennu’r dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau neu wneud gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad.

22. **Rhestr datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth a wnaed i gynghorwyr rhwng 01.04.2023 - 31.03.2024.** Mae’r Clerc wedi anfon rhestr at Banel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol. Gwnaeth pawb ddatgan nad oeddent eisiau hawlio’r swm.

23. **Costau a threuliau Cynghorwyr 01.04.2024 - 31.03.2025** – gall pob aelod hawlio £156.00 y flwyddyn (sy’n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy’n gysylltiedig â gweithio gartref. **Bydd angen i bawb anfon y ffurflen at y Clerc i nodi ei bod yn gwneud cais amdano, neu ei wrthod.**

24. **Diffibriliwr** – Pencaenewydd, Llangybi a Sardis – derbyniwyd cais gan Mr Ifor Davies, Llecyn, Pencaenewydd yn dweud nad oes ffynhonell ar gael i ariannu y tri lleoliad yma. Gofynwyd a fyddai yn bosib trafod hyn gan ei fod yn adnodd gwerthfawr yng nghefn gwlad. “Mae tri di-ffib yn talgylch Pencae. Fe gododd Clwb Ffermwyr Ieuan Llangybi arian rai blynyddoedd yn ôl i’w prynu a’u lleoli, fi sydd bellach yn gwirfoddoli i edrych ar eu hol. Byddaf yn eu archwilio bob tri mis i sicrhau eu bod ar gael ar bob amser os bydd galw. Ar ôl archwiliad byddaf yn diweddarau safle wê y British Heart Foundation, dyma’r safle y bydd y gwasanaeth iechyd yn cyfeirio ato pan fo angen am di-ffib. Yn y gorffennol mae’r gwasanaeth iechyd wedi bod yn cyflenwi padiau a batris fel bo’r angen e.e. dyddiad defnydd y padiau wedi mynd heibio, oes batri wedi dod i ben. Cefais wybod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod perygl i’r trefniant yma fod yn dod i ben, a bellach mae hyn yn wir. Mae’n sicr fod pob defib cymunedol yn yr un sefyllfa.

Yr oblygiadau ar gyfer y dair uned yw.

1. Bydd angen sicrhau padiau ar gyfer pob uned fel bydd ei hoes yn dod i ben (oes 5 mlynedd). Cost £144 yn cynnwys TAW ar hyn o bryd.
2. Angen cyflenwad o fatris fel bod angen (oes 5 mlynedd). Cost nawr £66 yn cynnwys TAW.
3. Ystyried rhoi padiau sydd yn addas ar gyfer plant. Cost nawr £112.80. dim yn yr unedau ar hyn o bryd”.

Fe drafodwyd y mater, a penderfynwyd egluro fod croeso iddynt wneud cais blynyddol er mwyn ei ystyried fis Chwefror hefo gweddill y ceisiadau ariannol, fel bo angen. Eglurwyd ein bod eisioes yn rhoi cyfraniad ariannol i'r Gymdeithas Adloniant a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llanybi.

25. **Taliad BACS** wedi cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod diwethaf - wedi talu Criccieth Cleaning fis Awst 2024, ar ol cael caniatad gan y Cadeirydd.

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Criccieth Cleaning	Glanhau llochesi bws	<b>182.50</b>	<b>36.50</b>	<b>219.00</b>	<b>219.00</b>

26. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
D. F. Thomas	Lwfans costau a threuliau Cynghorwyr(01.04.24-31.03.25)	<b>156.00</b>		<b>156.00</b>	<b>156.00</b>
G. L. Jones	Peintio offer Cae Chwarae Llanybi (916)	<b>1490.00</b>		<b>1788.00</b>	<b>298.00</b>
ALCC	Tâl Aelodaeth 12.09.24-11.09.25	<b>50.00</b>		<b>50.00</b>	<b>50.00</b>
Cyngor Gwynedd	Archwilio mewnol 01.04.23- 31.03.24 (007950C0016872D)	<b>315.00</b>		<b>63.00</b>	<b>378.00</b>

27. Cyflog mis Awst 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2024 35 awr y mis x £17.16 = £600.60	600.60 = Llai treth £120.12 = <b>£480.48</b>	<b>480.48</b>	<b>480.48</b>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Awst 2024	600.60 x 20% = <b>£120.12</b>	<b>120.12</b>	<b>120.12</b>
Costau swyddfa'r Clerc Awst 2024	£26.00	<b>26.00</b>	<b>26.00</b>

### **Materion hwyr**

28. **Parcio Maen y Wern, Llanystumdwy** - derbyniwyd ymateb gan yr Uned Traffig yn dweud fod ganddynt ol-groniad gwaith, a gofyn i ni gysylltu hefo nhw eto fis Ionawr 2025.

29. **Fferm Gwynfryn i Llwyn, Llanystumdwy**- derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson, Uned Traffig yn dweud ei fod wedi edrych ar ddata blynyddol gwrthdrawiadau gan yr Heddlu dros y 10 mlynedd diwethaf, a nid oedd yr un gwrthdrawiad wedi ei adrodd ganddynt. Dywedodd hefyd fod y wybodaeth yma ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd trwy dudalen We 'Crashmap', ac maent wedi dod i'r un casgliad. Mae hefyd wedi edrych ar ddata dyddiol rhwng 02.09.2023 - 02.09.2024, sydd ar gael yn cofnodi cyflymder mae cerbydau yn teithio ar y rhwydwaith yn yr union leoliad yma.

Dyweddodd ei fod yn anodd cyfiawnhau unrhyw ymrraeth i gynnig gwelliant sylweddol, oherwydd bod y mwyafrif yn cadw i gyflymder rhesymol ac yn arafu cyn cyrraedd y gornel o'r ddau gyfeiriad. Er hynny, mae wedi cytuno i Swyddog ymgymryd â'r archwiliad o'r ardal, a gweld os oes cyfle i wella arwyddion a marciau ffordd yno.

30. **Baw ci** -derbyniwyd cwyn fod baw ci ar y palmentydd yn Chwilog. Clerc wedi gosod poster o flaen y Neuadd Goffa, a chysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

Bydd yn cyfarfod nesaf ar nos Iau **03.10.2024**, yn Neuadd Chwilog, a bydd angen trefnu cyfarfod Busnes/Cyllid am 6:30 ar yr un noson.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.